

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU



NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY

**Cynhelir cyfarfod o'r PWYLLGOR SAFONAU DDYDD MAWRTH 27 CHWEFROR 2018
ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy am 10am.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

AGENDA

1. Ymddiheuriadau

2. Datganiad o Ddiddordebau

3. Rhybudd o Faterion Brys

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972

4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 1 Mawrth 2017

5. Materion yn codi

6. Penodi Cadeirydd

7. Cod Ymddygiad: Cyflwyniad ac Adolygiad

8. Adolygiad o'r Cyfansoddiad

9. Presenoldeb yng nghyfarfodydd ATA

10. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau

11. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 3 uchod.

RHAN II

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Deddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

Dim

Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2017 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy

Yn bresennol

Jane A Eyton-Jones (Cadeirydd)
Celia Blomeley
Antony P Young
Y Cyng. Brian Dunn, Cyngor Sir y Fflint

Gareth Owens, Dirprwy Glerc
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau

Ymddiheuriadau

David Morris (Dirprwy Gadeirydd)
Y Cyng. Jim Evans, Cyngor Sir Ynys Môn

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2016 eu cymeradwyo'n gofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4 CYFARWYDDYD DIWYGIEDIG AR Y COD YMDDYGIAD

4.1 Rhoddodd y Dirprwy Glerc wybod i'r pwyllgor am ddiwygiadau i'r cyfarwyddyd a ddaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn newidiadau i'r Cod Ymddygiad. Nodwyd fod y cyfarwyddyd diwygiedig wedi ei ddosbarthu i aelodau'r awdurdod drwy eu cynghorau sir eu hunain.

4.2 Atgoffwyd aelodau fod y cod enghreifftiol cenedlaethol wedi'i ddiwygio yn 2016 a daeth i rym ym mis Gorffennaf 2016. Bu i'r Ombwdsmon gyhoeddi cyfarwyddyd diwygiedig ar gyfer cynghorau sir ac awdurdodau tân ac achub a nodwyd y prif newidiadau yn y fersiynau diweddaraf fel a ganlyn:

- Rhagarweiniad – yn pwysleisio cyfrifoldebau personol i ddeall y Cod
- Mwy o eglurder ynglŷn â'r prawf 2 gam – a oes achos o dorri wedi digwydd? A oes angen gweithredu er lles y cyhoedd?
- Pwysleisio y bydd adroddiadau i Bwyllgorau Safonau neu'r Panel Dyfarnu yn cynnwys barn am fater a fu achos o dorri'r Cod ai peidio.
- Cyfarwyddyd pryd i adrodd ynghylch amheuan o dorri'r Cod, yn dilyn diddymu'r rheidrwydd i wneud hyn dan y Cod.

- Egluro beth gall yr aelodau ei wneud pan fo ganddynt fuddiant personol a rhagfarnus (yn dilyn cyflwyno'r hawl i wneud sylwadau ysgrifenedig pan fo'r cyhoedd yn gallu gwneud hynny hefyd).

4.3 **PENDERFYNWYD nodi'r cyfarwyddyd diwygiedig.**

5 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

5.1 Fel mater o lywodraethu corfforaethol da, mae'r Pwyllgor Safonau yn darparu adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub ynghylch ei weithgareddau yn ystod pob bob blwyddyn ariannol. Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r adroddiad ar gyfer 2016-17.

5.2 Gan ei bod yn bosib mai dyma fydd cyfarfod diwethaf Celia Blomeley a Jane Eyton-Jones gan fod eu cyfnod yn y swydd yn dod i ben yn Rhagfyr 2017, dymunai y Cynghorydd Dunn gofnodi diolch yr Awdurdod i'r ddwy am eu gwaith ar y pwyllgor dros yr wyth mlynedd diwethaf. Awgrymwyd y dylid cael ymgyrch recriwtio ar y cyd rhwng ATAGC a chynghorau sir yng Ngogledd Cymru er mwyn penodi aelodau annibynnol newydd.

5.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'w gymeradwyo i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.**

6 FFORWM SAFONAU GOGLEDD CYMRU

6.1 Bu i'r Dirprwy Glerc a'r aelodau fynd drwy gofnodion y cyfarfod Fforwm Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd 17 Hydref 2016. Roedd Celia Blomeley wedi mynychu'r cyfarfod ar ran Pwyllgor Safonau ATAGC.

6.2 Nodwyd fod Pwyllgorau Safonau cynghorau sir Powys a Cheredigion wedi datgan diddordeb i ymuno â'r Fforwm a cytunodd yr aelodau y byddai hyn o fudd i bawb.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi cofnodion y cyfarfod Fforwm Safonau Gogledd Cymru.**

Adroddiad ar gyfer	Pwyllgor Safonau
Dyddiad	27/02/18
Swyddog Arweiniol	Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro
Swyddog Cyswllt	Gareth Owens
Pwnc	Adolygu Cod Ymddygiad yr Aelodau



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno er mwyn i'r aelodau adolygu'r cod ymddygiad.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Rhaid i'r Awdurdod fabwysiadu cod ymddygiad o dan adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Rhaid i'r cod hwnnw gynnwys y darpariaethau sydd o fewn y cod enghreifftiol cenedlaethol, a gall gynnwys darpariaethau sy'n gyson â'r cod enghreifftiol cenedlaethol.
- 3 Mae'r cod enghreifftiol cenedlaethol yn seiliedig ar Egwyddorion Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ("Egwyddorion Nolan"). Mae wedi'i sefydlu yng Ngorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016.

ARGYMHELLION

- 4 Bod y Pwyllgor yn argymhell i'r Awdurdod ei fod yn cynnwys darpariaeth yng nghod ymddygiad yr aelodau fod angen cydweithredu gyda'r weithdrefn ddatrys leol.

GWYBODAETH

- 5 Fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu cod ymddygiad am y tro cyntaf yn 2001. Diwygiodd ei god yn 2008 yn dilyn newidiadau i'r cod enghreifftiol cenedlaethol. Diwygiodd ei god eto yn 2016 yn dilyn y gyfres ddiweddaraf o newidiadau.
- 6 Mae'r cod yn cynnwys holl ddarpariaethau'r cod enghreifftiol cenedlaethol heb unrhyw newidiadau nac ychwanegiadau. Gan fod yr Awdurdod wedi mabwysiadu trefn ddatrys leol, rhaid cynnwys ymrwymiad i gydweithredu â'r weithdrefn honno (ym mharagraff 6(3)). O ran popeth arall, mae'n gyfoes ac yn cyfateb yn fras i'r codau mewn awdurdodau tân eraill.

Amcanion Llesiant	Dim goblygiadau penodol
Cyllideb	Dim goblygiadau penodol
Cyfreithiol	Mae prosesau cadarn a dulliau moesegol o wneud penderfyniadau yn ganolog i lywodraethu da
Staffio	Dim goblygiadau penodol
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Dim goblygiadau penodol
Risgiau	Mae llywodraethu da yn lleihau'r risg o niwed i enw da'r Awdurdod.

Adroddiad ar gyfer	Y Pwyllgor Safonau
Dyddiad	27/02/18
Swyddog Arweiniol	Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro
Swyddog Cyswllt	Gareth Owens
Pwnc	Adolygu'r Cyfansoddiad



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno er mwyn i'r aelodau gyfuno ar yr amserlen ar gyfer adolygu cyfansoddiad yr Awdurdod.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Nid oes gofyn cyfreithiol ar yr Awdurdod i lunio cyfansoddiad, ond ystyrir mai arfer dda yw gwneud hynny. Fel gyda dogfennau tebyg mewn awdurdodau lleol, mae'r cyfansoddiad yn cynnwys nifer o godau a phrotocolau sy'n rhoi arweiniad mwy manwl ar ddilyn y Cod Ymddygiad mewn sefyllfaoedd penodol ac ar greu prosesau ar gyfer ymdrin â materion mewn modd moesegol.
- 3 Arfer dda yw adolygu'r codau a'r protocolau'n gyfnodol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn parhau'n berthnasol. Yn ystod cyfnod yr awdurdod diwethaf y cafodd y cyfansoddiad ei gyflwyno felly mae'n briodol ei fod yn cael ei adolygu am y tro cyntaf yn ystod cyfnod yr Awdurdod hwn.

ARGYMHELLION

- 4 Mabwysiadu'r amserlen ar gyfer adolygu'r Cyfansoddiad.

GWYBODAETH

- 5 Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys y codau a'r protocolau a ganlyn :-
 - Cod Ymddygiad yr Aelodau
 - Protocol ar gysylltiadau rhwng aelodau a swyddogion
 - Gweithdrefn leol ar gyfer datrys cwynion am aelodau
 - Rhoddion a lletygarwch – protocol lleol
 - Protocol cyfryngau cymdeithasol
 - Proses ar gyfer rheoli cwynion am safonau

- 6 Mae'r codau a'r protocolau hyn wedi cael eu cyflwyno ar wahanol adegau, ac maent wedi bod yn agored i'w hadolygu'n gyfnodol er nid yn rheolaidd. Mae'n briodol fod yr holl godau a phrotocolau o'r fath yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn wir bod eu hangen o hyd.
- 7 Mae'n bryd adolygu'r codau a'r protocolau eto, a gosod rhaglen i sicrhau yr ymdrinnir â nhw yn ystod cyfnod yr awdurdod hwn. Mae paragraff 9 yn dangos y rhaglen a awgrymir ar gyfer eu hadolygu, fel bod modd i'r Pwyllgor Safonau gael ei fodloni fod yr holl godau a phrotocolau'n cael eu hadolygu fel rhan o gylch rheolaidd.
- 8 Yn amlwg, os bydd angen newid unrhyw god neu brotocol y tu allan i'r cylch gellir gwneud hynny ac yna bydd y cylch yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny.
- 9 Dyma amserlen arfaethedig ar gyfer adolygu'r codau a'r protocolau :-

Blwyddyn	Mawrth	Medi
2018	Cod Ymddygiad yr Aelodau	Protocol ar gysylltiadau rhwng aelodau a swyddogion
2019	Gweithdrefn leol i ddatrys cwynion am aelodau	Rhoddion a lletygarwch – protocol lleol
2020	Protocol cyfryngau cymdeithasol	Proses ar gyfer rheoli cwynion am safonau

Amcanion Llesiant	Dim goblygiadau penodol
Cyllideb	Dim goblygiadau penodol
Cyfreithiol	Mae prosesau cadarn a dulliau moesegol o wneud penderfyniadau yn ganolog i lywodraethu da
Staffio	Dim goblygiadau penodol
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Dim goblygiadau penodol
Risgiau	Mae llywodraethu da yn lleihau'r risg o niwed i enw da'r Awdurdod.

Adroddiad ar gyfer	Pwyllgor Safonau
Dyddiad	27/02/18
Swyddog Arweiniol	Dirprwy Clerc/Swyddog Monitro
Swyddog Cyswllt	Gareth Owens
Pwnc	Presenoldeb yng Nghyfarfodydd yr ATA



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i ofyn i'r aelodau nodi'r camau arfaethedig er mwyn codi lefelau presenoldeb yng nghyfarfodydd yr Awdurdod.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Nid corff a etholir yn uniongyrchol yw'r Awdurdod, yn hytrach mae'r aelodau'n cael eu henwebu gan y 6 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Er bod deddfwriaeth yn nodi lefelau isaf ar gyfer presenoldeb mewn cyfarfodydd cynghorau, nid oes darpariaeth o'r fath ar gyfer yr awdurdod tân.
- 3 Mae'r lefelau presenoldeb wedi bod yn gymysg ers yr etholiadau yn 2017 ac yn ddiweddar mae'r Clerc wedi ysgrifennu at holl aelodau'r Awdurdod i dynnu sylw at y mater posibl ac i ofyn iddynt flaenoriaethu presenoldeb. Bydd adolygiad pellach o bresenoldeb yn cael ei gynnal ym mis Medi 2018, pryd y bydd llythyr dilynol yn cael ei anfon.

ARGYMHELLION

- 4 Bod yr Aelodau'n nodi'r camau arfaethedig er mwyn codi lefelau presenoldeb.

CEFNDIR

- 5 Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, rhaid i gynghorwyr ar gyrrff a etholir yn uniongyrchol fynychu o leiaf 1 cyfarfod bob chwe mis "fel aelod" neu cyhoeddir bod eu sedd yn wag a chynhelir is-etholiad. Nid yw'r un ddarpariaeth yn gymwys i aelodau sy'n gwasanaethu ar yr awdurdod tân heblaw'r ffaith fod yr aelodau'n cael lwfans ychwanegol am wasanaethu ar yr awdurdod tân (oni bai eu bod eisoes yn cael lwfans cyfrifoldeb arbennig).

GWYBODAETH

- 6 Fel Awdurdod bach sy'n cwrdd nifer gyfyngedig o weithiau y flwyddyn, mae unrhyw fylchau yn y presenoldeb yn golygu colled i'r Awdurdod a blwch hefyd yn nealltwriaeth yr aelodau. Yn wir, mae pob cyfarfod yn bwysicach oherwydd bod llai ohonynt.
- 7 Wrth gwrs, ni fydd cynghorwyr yn gallu dod i bob cyfarfod o'r awdurdod, pob cyfarfod o'u cyngor a rhoi sylw i'w bywydau preifat. Er hynny, mae'r Clerc wedi ysgrifennu at yr holl aelodau i dynnu sylw at y lefelau presenoldeb ac i'w gwahodd i fynychu'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd, o leiaf. Edrychir eto ar y lefelau presenoldeb ym mis Medi i weld a fu unrhyw newid.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Dim goblygiadau penodol
Cyllideb	Dim goblygiadau penodol
Cyfreithiol	Dim goblygiadau penodol
Staffio	Dim goblygiadau penodol
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Dim goblygiadau penodol
Risgiau	Dim goblygiadau penodol

Adroddiad i	Pwyllgor Safonau
Dyddiad	27/02/18
Swyddog Arweiniol	Colin Everett, Clerc yr Awdurdod
Swyddog Cyswllt	Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau
Pwnc	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Gofynnir i Aelodau gymeradwyo'r adroddiad sydd ynghlwm.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor yn darparu'r Awdurdod Tân ac Achub gydag adroddiad blynyddol o'i weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol.
- 3 Mae adroddiad blynyddol y Pwyllgor ynghlwm er ystyriaeth yr Aelodau.

ARGYMHELLIAD

- 4 Argymhellir fod aelodau'n nodi'r adroddiad blynyddol ac yn ei argymhell i gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Dim goblygiadau penodol
Cyllideb	Dim goblygiadau penodol
Cyfreithiol	Dim goblygiadau penodol
Staffio	Dim goblygiadau penodol
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Dim goblygiadau penodol
Risgiau	Dim goblygiadau penodol

ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cefndir

Dyma'r trydydd adroddiad ar ddeg gan y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac mae'n cynnwys y cyfnod o fis Ebrill 2017 hyd fis Mawrth 2018. Mae deddfwriaethau'n gofyn i'r Pwyllgor Safonau gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn darparu cylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r Awdurdod a goruchwyllo polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn yr Awdurdod. Hefyd, pan fo deddf yn caniatáu, i dderbyn adroddiadau a chwynion am aelodau, gwneud neu oruchwyllo archwiliadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod.

Aelodaeth

Daeth cyfnodau swydd dwy aelod annibynnol, Celia Blomeley a Jane Eyton-Jones, i ben ar 31 Rhagfyr 2017. Gan mai hwn oedd eu hail gyfnod nid oeddynt yn gymwys i'w hail-benodi.

Eleni, cafodd yr ymgyrch recriwtio ei chynnal ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint. Er bod yr Awdurdod Tân ac Achub a'r Cyngor Sir yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol, penderfynwyd cymryd y cam anarferol o recriwtio ar y cyd. Gwnaethpwyd hyn i rannu'r gost, ac yn bwysicach, oherwydd ein bod yn cydnabod y gallai fanteision ddod drwy rannu dealltwriaeth rhwng y ddau gorff.

Cafodd y swyddi eu hysbysebu yn y Daily Post, Flintshire Leader, ac ar wefannau ATAGC a Chyngor Sir y Fflint a'r gwefannau cyfryngau cymdeithasol yn ystod mis Hydref a dechrau mis Tachwedd 2017. Daeth wyth cais i law i ymateb i'r hysbyseb, a rhoddwyd pum ohonynt ar y rhestr fer. Ar 29 Tachwedd, cyfarfu'r Panel i gyfweld yr ymgeiswyr a oedd ar y rhestr fer. Ar ddiwedd y broses gyfweld, bu'r Panel yn trafod am gryn amser nodweddion a chryfderau'r pum ymgeisydd, gan ddod i'r casgliad fod pob un o'r ymgeiswyr yn addas i'w penodi.

Yng nghyfarfod Awdurdod Tân a Achub Gogledd Cymru ar 18 Rhagfyr 2017, derbyniodd yr aelodau argymhellion y Panel, sef penodi Sally Ellis a Julia Hughes gan ddod i rym ar 1 Ionawr 2018, a hynny am gyfnod o bedair blynedd.

Mae dau gynrychiolydd newydd o ATAGC hefyd, yn dilyn etholiadau'r cynghorau yn 2017. Felly, dyma'r aelodaeth newydd:

Aelodau Annibynnol

David Morris 01/09/14 - 31/08/18

Antony P Young 01/04/16 - 31/03/20

Sally Ellis 01/01/18 – 31/12/2021

Julia Hughes 01/01/18 – 31/12/2021

Aelodau Awdurdod Tân ac Achub

Y Cynghorydd Dylan Rees (19/06/18 ymlaen)

Y Cynghorydd Owen Thomas (19/06/18 ymlaen)

Presenoldeb a Materion

Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ar 27 Chwefror 2018 ac roedd yr aelodau canlynol yn bresennol:

David Morris

Antony P Young

Sally Ellis

Julia Hughes

Y Cynghorydd Owen Thomas

Yn y cyfarfod hwnnw, cafwyd cyflwyniad ar waith yr Awdurdod, cyflwyniad ar lefelau presenoldeb a gosodwyd rhaglen waith y pwyllgor.

Cwynion yn erbyn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub

Ni fu cwyn ynglŷn ag aelod o'r ATA yn ystod y cyfnod hwn.

Goblygiadau Ariannol

Mae'r gyllideb ar gyfer y Pwyllgor Safonau yn dod o dan bennawd gwasanaethau pwyllgorau sydd ar gyfer holl gostau'r Awdurdod. Yn dilyn cymeradwyo cynllun cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau ar 18 Mehefin 2012, gall yr aelodau annibynnol erbyn hyn hawlio cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar gyfarfodydd a digwyddiadau a fynychir. Hyd yn hyn, ni wnaed unrhyw hawliau.

Casgliad

Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymhell fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi ei adroddiad.